

## Bundle Health Board - Welsh 15 April 2020

10.30am via WebEx

- 1 Agenda  
Agenda Health Board 15.4.20 Public V1.0 Cymraeg.docx
- 2 20/36 Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd yn Gyhoeddus ar 23.1.20  
20.36a Minutes Board 23.1.20 Public V0.2 Cymraeg.docx

## Agenda

**Dyddiad** 15/04/2020  
**Amser** 10:30 - 12:00  
**Cadeirydd** Mr Mark Polin

- 1 20/34 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**
- 2 20/35 Datganiadau o Ddiddordeb**
- 3 20/36 Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd yn Gyhoeddus ar 23.1.20 er Cywirdeb, Materion yn Codi a Log Gweithredu Cryno**
- 4 20/37 Diweddariad Covid-19 : Dr Chris Stockport**
- 5 20/38 Cynnal Llywodraethu - Covid-19 : Mrs Justine Parry**
- 6 20/39 Cynllun Ariannol 2020/21 : Mrs Sue Hill**
- 7 20/40 Diweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Diweddariad ar y Strategaeth Rheoli Risg : Mrs Gill Harris**
- 8 20/41 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) : Dr David Fearnley**
- 10 20/42 Dyddiad Cyfarfod nesaf**  
Bydd y Bwrdd yn cyfarfod nesaf yn gyhoeddus ar 14 Mai 2020
- 11 20/43 Deddf Cyrff Cyhoeddus 1960 (Mynediad i Gyfarfodydd)**  
Argymhellion:
  1. Nodi er bod arsylwyr yn cael eu heithrio o gyfarfodydd yn ystod y pandemig COVID-19, bydd cofnodion y drafodaeth a gynhaliwyd yn gyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar y wefan cyn pen tri diwrnod os yw'n bosibl.
  2. Penderfynwyd bod cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i ddiddordeb y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960.





**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**  
**Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 23.1.19**  
**yn Neuadd Reichel, Bangor**

**Yn bresennol:**

Mr M Polin	Cadeirydd
Yr Athro N Callow	Aelod Annibynnol ~ Prifysgol
Cyng C Carlisle	Aelod Annibynnol
Mrs M Edwards	Aelod Cyswllt ~ Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Mr G Evans	Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Dr D Fearnley	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
Mrs S Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Mrs G Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth / Dirprwy Brif Weithredwr
Mrs S Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid
Mrs J Hughes	Aelod Annibynnol
Cyngh M Hughes	Aelod Annibynnol
Mr E Jones	Aelod Annibynnol
Mrs L Meadows	Aelod Annibynnol
Miss T Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
Mrs L Reid	Is-gadeirydd
Mrs L Jones	Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro
Mrs L Singleton	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Mr A Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd ( <i>rhan o'r cyfarfod</i> )
Mrs H Wilkinson	Aelod Annibynnol
Mr M Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad
Mr Ff Williams	Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

**Yn bresennol:**

Mrs D Carter	Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrwydd Ansawdd / Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau
Mrs K Dunn	Pennaeth Materion Corfforaethol (ar gyfer cofnodion)

Cyfieithydd, Aelodau'r Cyhoedd, Arsyllwyr

<b>Eitem ar yr Agenda a Drafodwyd</b>	<b>Gweithredu gan</b>
<b>20/5 Ymddiheuriadau am Absenoldeb</b>	
<b>20/5.1</b> Derbyniwyd ar ran Mr J Cunliffe, Mr G Doherty, Mr A Roach, Ms D Sharp a Dr C Stockport	
<b>20/6 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd</b>	
<b>20/6.1</b> Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nododd fod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&P) wedi cyfarfod yn gynharach y diwrnod hwnnw a bod lefel fanwl o graffu ar lawer o feysydd a oedd hefyd yn ymddangos ar yr agenda newydd.	
<b>20/7 Datganiadau o Fuddiant</b>	

<p>Datganodd Dr D Fearnley ddatganiad o fuddiant yn eitem agenda 20/11 gan ei fod wedi'i enwi ar y gofrestr o glinigwyr cymeradwy o dan Adran 12(2).</p>	
<p><b>20/8 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 7.11.19 am fanwl-gywirdeb ac adolygu Cofnod Cryno o Weithredoedd</b></p> <p><b>20/8.1</b> Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod manwl-gywir yn ddibynnol ar y digwydiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I adlewyrchu bod y Cyng. M Hughes yn bresennol</li> <li>• I ddiwygio 19.161.1 i ddarllen “..... fel y'i hamlinellir yn y camau a nodwyd. Câl cynnydd o ran cyflawni'r argymhellion eu cyflwyno'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn unol â'u cylch busnes. Yn benodol, nodwyd bod .....”</li> <li>• I ddiwygio 19.161.2 i ddarllen “.....datryswyd ac wedi'i roi ar waith. O ran argymhelliad 4, rhoddodd sicrwydd i aelodau fod cynllun cyfathrebu ar y trywydd cywir i gael ei ddatblygu ac y byddai'n cael ei gylchredeg ymysg aelodau maes o law”.</li> </ul> <p><b>20/8.2</b> Nodwyd diweddariadau hefyd i'r cofnod cryno o weithredoedd.</p> <p><b>20/8.3</b> Nodwyd bod nodyn briffio wedi'i gylchredeg ar lywodraethu a pherfformiad ariannol yn yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) ac awgrymodd y Cadeirydd y byddai gwerth o'i rannu gydag arweinwyr Llywodraeth Cymru (LIC) ym maes iechyd meddwl.</p>	LS
<p><b>20/9 Mesurau Arbennig</b></p> <p><b>20/9.1 Adroddiad Sicrwydd Cadeiryddion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen 9.12.19</b></p> <p><b>20/9.1.1</b> Nodwyd yr adroddiad.</p> <p><b>20/9.2 Adroddiad Trosolwg Hunanadolygu</b></p> <p><b>20/9.2.1</b> Roedd y Dirprwy Brif Weithredwr am gofnodi ei diolchgarwch i nifer o unigolion fu ynghlwm wrth ddatblygu'r adroddiad. Teimlai fod angen i'r sefydliad gydnabod lle roedd arni a bod gwelliant cadarnhaol mewn rhai meysydd ond nad oedd rheswm i laesu dwylo. Nododd fod proses graffu trwy gadarnhau a herio yn y Tîm Gweithredol a chydag Aelodau Annibynnol yn esblygu.</p> <p><b>20/9.2.2</b> Codwyd cwestiwn am effaith rhaglen Gofal Diogel Glân ar yr Adran Ystadau a chadarnhaodd Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrhau Ansawdd / Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau fod y timau perthnasol yn mynd i'r afael â hyn ac y câi ei reoli'n briodol.</p> <p><b>20/9.2.3</b> Adroddodd y Cadeirydd fod Mesurau Arbennig wedi bod yn bwnc trafodaeth mewn cyfarfod gyda LIC yn ddiweddar. Dywedodd ei fod yn awyddus i weld mwy o gydlyniant rhwng cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Arbennig (SMIF) a chyfarfodydd LIC/Mesurau Arbennig Gweithredol. Yn ail, nododd fod angen eglurder o ran yr uchelgais a'r disgwyliad i symud iechyd meddwl y tu allan i Fesurau Arbennig dros y chwe mis nesaf a pha gamau sydd eu hangen i ganiatáu hyn.</p> <p><b>20/9.2.4</b> Adroddodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd nad oedd trosolwg ffurfiol gan y Gweinidogion wedi dod i law eto, ond, roedd LIC wedi cadarnhau'n ddiweddar bod lefel dwysáu'r Bwrdd yn parhau i fod yr un peth.</p>	

<p><b>20/9.2.5 Penderfynwyd</b> y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad er gwybodaeth.</p>	
<p><b>20/10 Adroddiadau Sicrwydd Cadeirydd Pwyllgorau a Grwpiau Cyngori</b></p> <p><b>20/10.1 Archwilio a Phwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (QSE) ar y Cyd 5.11.19</b></p> <p><b>20/10.1.1</b> Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif ddulliau sicrwydd a risgiau fel y'i hamlinellir gan gynnwys pryderon ynghylch cyflymder cynnydd o ran datblygu'r swyddogaeth archwilio clinigol yn barhaus. Ychwanegodd fod disgwyl i'r Polisi Archwilio Clinigol gael ei gyflwyno i Bwyllgor y QSE ar 28.1.20. Croesawodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol y craffu buddiol gan y Pwyllgor ar y Cyd a theimlai y byddai'r strategaeth glinigol newydd yn helpu i lywio'r maes gwaith hwn hefyd. Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weithredwr mai'r bwriad fel rhan o'r adolygiad llywodraethu parhaus oedd adnewyddu rôl y Grŵp Ansawdd a Diogelwch (QSG) a fyddai'n caniatáu ffocws cryfach ar effeithiolrwydd archwilio clinigol. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol am y gwaith parhaus yn hyn o beth ond ailbwsleisiodd bryderon y Pwyllgor ar y Cyd ynghylch cyflymder.</p> <p><b>20/10.1.2</b> Nodwyd yr adroddiad.</p> <p><b>20/10.2 Pwyllgor Archwilio 12.12.19</b></p> <p><b>20/10.2.1</b> Cyflwynodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif ddulliau sicrwydd a'r risgiau fel y'i amlinellwyd. O ran Risgiau Corfforaethol, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi adolygu'r risgiau o fewn ei gylch gwaith yn gynharach y diwrnod hwnnw a bod ganddo bryderon bod ffynonellau'r sicrwydd yn annigonol. Teimlai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod gwahaniaethau o ran dehongli sgoriau risg, a nododd y Dirprwy Brif Weithredwr fod angen posibl i ymgymryd â dadansoddiad o anghenion hyfforddiant o ran deall risg ar draws y sefydliad. Nodwyd bod ymagwedd newydd tuag at reoli risg gorfforaethol wrthi'n cael ei datblygu.</p> <p><b>20/10.2.2</b> Nodwyd yr adroddiad.</p> <p><b>20/10.3 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 19.11.19</b></p> <p><b>20/10.3.1</b> Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif ddulliau sicrwydd a'r risgiau fel y'i amlinellwyd. Cyfeiriodd Cadeirydd y Bwrdd lechyd at y mater wedi'i ddwysáu ynghylch diffyg sicrwydd ynghylch yr adroddiad marwoldeb a gofynnodd p'un a oedd Cadeirydd y Pwyllgor yn fodlon na fyddai hyn yn cael ei ailadrodd. Bu Cadeirydd y Pwyllgor yn hyderus bod eglurder erbyn hyn ac y byddai papur at sylw'r QSE ym mis Mawrth yn amlinellu sut byddai adrodd ar farwoldeb yn y dyfodol yn diwallu anghenion y Pwyllgor.</p> <p><b>20/10.3.2</b> Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor am gefnogaeth y Bwrdd o ran cynnig i'w gwneud yn ofynnol i staff ddefnyddio dull adnabod arall yn hytrach na chortynnau gwddf. Roedd hyn am resymau atal heintiau. Gwnaed ymrwymiad y byddai'n haws rhoi hyn ar waith yn y gweithlu cyfan yn hytrach na chanfod grwpiau staff penodol. Roedd y Bwrdd yn cefnogi cynnig y Pwyllgor mewn egwyddor. Ar wahân i hynny, o ran gweladwyedd, nododd Cadeirydd y Bwrdd lechyd ei fod wedi gofyn am adolygiad o'r rhaglen gwydr.</p> <p><b>20/10.3.3</b> Nodwyd yr adroddiad.</p>	

**20/10.4 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 24.10.19, 4.12.19 a 19.12.19**

**20/10.4.1** Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif ddulliau sicrwydd a'r risgiau fel y'i amlinellwyd.

**20/10.4.2** Nodwyd yr adroddiad.

**20/10.5 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 10.12.19**

**20/10.5.1** Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif ddulliau sicrwydd a'r risgiau fel y'i amlinellwyd. Roedd yn falch o bwysleisio bod Awyr Las wedi'i ddewis gan Redrow fel eu helusen y flwyddyn.

**20/10.5.2** Nodwyd yr adroddiad.

**20/10.6 Pwyllgor y Ddeddf Iechyd Meddwl 20.12.19**

**20/10.6.1** Cyflwynodd Cadeirydd cyfarfod Pwyllgor mis Rhagfyr yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif ddulliau sicrwydd a'r risgiau fel y'i hamlinellwyd. O ran prinder Meddygon Adran 12(2), gwnaeth Cadeirydd newydd y Pwyllgor gadarnhau ei bod wedi codi hyn gyda Chyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol a fyddai'n gofyn i feddygon teulu annog ceisiadau ac esbonio materion cyllid/indemniad ar gyfer contractwyr annibynnol.

**20/10.6.2** Nodwyd yr adroddiad.

**20/10.7 Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth 4.11.19**

**20/10.7.1** Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif ddulliau sicrwydd a'r risgiau fel y'i amlinellwyd yn cynnwys diweddarau Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

**20/10.7.2** Nodwyd yr adroddiad.

**20/10.8 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (SPPH) 3.12.19**

**20/10.8.1** Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif ddulliau sicrwydd a'r risgiau fel y'i amlinellwyd gan gynnwys cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

**20/10.8.2** Nodwyd yr adroddiad.

**20/10.9 Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth 21.11.19**

**20/10.9.1** Nodwyd yr adroddiad.

**20/10.10 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) 17.12.19**

**20/10.10.1** Cyflwynodd Cadeirydd y Grŵp Cynghori yr adroddiad, gan dynnu sylw at y prif gyngor ac adborth ar gyfer y Bwrdd.

CS

<p><b>20/10.10.2</b> O ran diweddariad rhaglen Gogledd Cymru Iach, soniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd y byddai angen canfod cyfleoedd pellach i weithio gyda phartneriaid er mwyn cyflawni hyn. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod Annibynnol, cadarnhawyd bod presenoldeb yr Awdurdod Lleol yn y SRG yn dal i beri pryder.</p> <p><b>20/10.10.3</b> Nodwyd yr adroddiad.</p> <p><b>20/10.11 Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol 13.12.19</b></p> <p><b>20/10.11.1</b> Cyflwynodd Cadeirydd y Grŵp Cynghori yr adroddiad, gan dynnu sylw at y prif gyngor ac adborth ar gyfer y Bwrdd.</p> <p><b>20/10.11.2</b> O ran y pwynt a wnaed am gyllid deintyddol a mynediad at wasanaethau, nododd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd y câi gwasanaethau deintyddol eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.</p> <p><b>20/10.11.3</b> Nodwyd yr adroddiad.</p> <p><b>20/10.12 Fforwm Partneriaeth Leol 8.10.19</b></p> <p><b>20/10.12.1</b> Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif gyngor ac adborth ar gyfer y Bwrdd.</p> <p><b>20/10.12.2</b> Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod Annibynnol ynghylch cynigion ar gyfer sifftiau a thrafodaethau am rotas, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad fod hyn yn cael ei ddatblygu mewn ffordd adeiladol trwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a phartneriaid Undebau Llafur. Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r LPF bellach o'r farn bod y sefyllfa'n fwy cadarnhaol erbyn hyn.</p> <p><b>20/10.12.3</b> Nodwyd yr adroddiad.</p>	
<p><b>20/11 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan)</b></p> <p><b>20/11.1 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd</b> yn cadarnhau'r rhestr o ychwanegiadau a phethau a ddilëwyd ar Gofrestr Cymru Gyfan o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru a Chofrestr Cymru Gyfan o Glinigwyr Cymeradwy.</p>	
<p><b>20/12 Adroddiadau Perfformiad</b></p> <p><b>20/12.1 Adroddiad Cynnydd Monitro'r Cynllun Blynyddol 2019-20</b></p> <p><b>20/12.1.1</b> Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad gyflwyno'r adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at yr adrannau'n ymwneud â gofal cychwynnol a gofal wedi'i gynllunio. Nododd ei fod yn hyderus bod y sefydliad yn canolbwyntio ar y meysydd cywir.</p> <p><b>20/12.1.2</b> Cafwyd trafodaeth. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor QSE fod elfennau yn yr adroddiad yn cynnwys naratif byr iawn neu ddim diweddariad o gwbl, a theimlai nad oedd hyn yn cynnig ymdeimlad da o sicrwydd o ystyried bod y Bwrdd bellach yn chwarter olaf y</p>	



<p>flwyddyn. Er y cydnabuwyd bod craffu manylach yn digwydd ar lefel y Pwyllgor, y teimlad oedd bod angen i'r papur hwn fod yn un arunig fel adroddiad cadarn gan y Bwrdd. Derbyniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod diffyg esboniad yn yr adroddiad. Myfyriodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi trafod yr adroddiad yn fanwl ac o ystyried y diwydrwydd ategol gan y Tîm Gweithredol a phwyllgorau craffu eraill, nid oedd yn disgwyl gweld unrhyw faterion anghyfarwydd yn ystod y chwarter hwn. Roedd hefyd yn ymwybodol bod Gweithredwyr yn edrych ar faterion ynghylch capasiti cyn Gweithdy Bwrdd yr oedd disgwyl ei gynnal ar 6.2.20. Nododd y Cadeirydd hefyd ei fod wedi gofyn am asesiad o'r strategaeth ystadau er mwyn gweld p'un a oedd yn ddigon cadarn i ategu at gynlluniau strategol y Bwrdd. Cyfeiriodd aelod annibynnol at ddatganiad yn yr adroddiad fod yr achos busnes yn ymwneud â phreswylfeydd yn annhebygol o gyrraedd y Bwrdd ym mis Mawrth. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod achos busnes drafft y gellid ei rannu gydag aelodau mewn lleoliad priodol, ond bod materion cymhleth yn ymwneud â'r opsiynau sydd ar gael i'r Bwrdd lechyd.</p> <p><b>20/12.1.3 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad.</b></p>	
<p><b>20/12.2 Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad</b></p> <p><b>20/12.2.1</b> Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad ymddiheuro am ystod o faterion fformadu yn y papur a gwall gyda'r safle meincnodi a gâi ei gywiro. O edrych yn ôl 12 mis, nododd fod yr amseroedd aros gwaethaf erioed yn yr Adran Achosion Brys (ED) wedi'i adrodd ar draws y DU gyda mwyfwy o drosglwyddiadau a chyswllt â chleifion. BIPBC oedd yn dal i berfformio waethaf yng Nghymru. O ran adroddiadau Adran 28, roedd lleihad sylweddol, ond roedd perfformiad gofal wedi'i gynllunio yn parhau i ddirywio ar draws y rhan fwyaf o fesurau. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod nifer y cleifion ar y rhestr achosion dilynol yn PBC wedi cynyddu i 92,000 o 83,000. O ran diagnosteg, roedd perfformiad yn sefydlog ar y cyfan ond roedd hyn yn bennaf oherwydd buddsoddi anghylchol ychwanegol. Yn olaf, nododd fod cyfraddau PADR yn y Bwrdd lechyd wedi cynyddu'n drawiadol.</p> <p><b>20/12.2.2</b> Gwnaeth y Cadeirydd gyfeirio at drafodaethau'n gynharach yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad lle'r oedd aelodau'n cytuno nad oedd y lefel bresennol o ran perfformiad yn dderbyniol, ond gwnaethant gydnabod faint o waith oedd yn cael ei wneud yn barhaus er mwyn ceisio gwella problemau. Yn ogystal, roedd y gwaith amlwg a phersonol iawn dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro a'i thîm yn yr Adrannau Achosion Brys wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru. Ar y cyfan, roedd y Cadeirydd yn teimlo bod mwy o optimistiaeth yn ymwneud â gofal heb ei drefnu. O ran gofal wedi'i gynllunio, roedd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi derbyn adroddiad gan Bennaeth Gwella Gofal wedi'i Gynllunio, a gwnaeth y Cadeirydd gadarnhau hefyd y câi adroddiad pellach ei ddarparu ar gyfer Pwyllgor mis Chwefror er mwyn amlinellu cynigion i ddefnyddio'r £7m a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar. Roedd y Pwyllgor F&amp;P wedi gofyn am adroddiad ar waith dylisu dilynol, a châi rhagor o wybodaeth am berfformiad diagnosteg a therapïau ei rhannu gyda'r Pwyllgor gan Gyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau lechyd. Pwysleisiodd y Cadeirydd mai bwriad yr adborth hwn o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor oedd hysbysu aelodau ac i beidio ag atal trafod yng nghyfarfod y Bwrdd.</p> <p><b>20/12.2.3</b> Cafwyd trafodaeth. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor QSE yn falch o weld bod Mesur lechyd Meddwl ar gyfer Gwasanaethau lechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc</p>	MW

<p>(CAMHS) wedi'i gyflawni. Holodd am y gosodiad yn y crynodeb gweithredol hefyd na fu unrhyw ddiwyddiadau byth bythoedd yn ystod cyfnod yr adroddiad, gan ei bod yn ymwybodol bod un wedi digwydd ym mis Tachwedd ac felly, tybiai y dylid fod wedi adrodd arno ym mis Rhagfyr. Cynigiodd Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrwydd Ansawdd / Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau esboniad dros yr un olaf. Yn olaf, roedd Cadeirydd y Pwyllgor QSE yn falch o nodi bod mwy o ddangosyddion gofal cychwynnol wedi'i gynnwys ond roedd ganddo ychydig o awgrymiadau'n ymwneud â mesurau eraill a allai gynnig trosolwg gwell o ran gofal integredig. Ymrwymodd i adrodd yn ôl yn uniongyrchol ar y rhain i Gyfarwyddwr Gweithredol Perfformiad a Chynllunio.</p> <p><b>20/12.2.4</b> Gwnaed y pwynt na ellid caniatáu normaleiddio'r lefel yma o ran perfformiad, ac er bod aelodau'n cael sicrwydd bod lefel gynyddol o graffu a gweithredu'n cael ei rhoi ar waith, nid oedd y rhain yn arwain at welliannau o ran y ffigurau a adroddwyd hyd yma. Nododd Aelod Annibynol hefyd nad oedd 86% o fynychiadau ar safle Wrecsam yn arwain at dderbyn i'r ysbyty, ond nid oedd unrhyw naratif esboniadol i ategu at y datganiad hwn. Adroddodd Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrhau Ansawdd / Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau ar amrywiaeth o gamau gweithredu'n cynnwys treial lle byddai meddygon teulu'n gweithio sifftiau mewn Adrannau Achosion Brys a gweithio i wella set sgiliau staff gan gynnwys rôl ehangach i Uwch Ymarferwyr Nyrsio a gweithwyr cefnogi MI FEDRAF.</p> <p><b>20/12.2.5</b> Gwnaeth y Cadeirydd gryno bod y camau dybryd nesaf yn allweddol i allu'r Bwrdd i gydnabod beth oedd yn llesteirio ei berfformiad ac i roi sefydlogrwydd a rheolaeth ar waith.</p> <p><b>20/12.2.6 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad.</b></p>	LR
<p><b>20/12.3 Diweddariad ar Ofal Heb ei Drefnu</b></p> <p><b>20/12.3.1</b> Gwnaeth Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrhau Ansawdd / Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau gyflwyno'r papur ac awgrymodd ei fod yn ceisio esbonio'r galw, mathau o salwch sy'n codi, lefelau dirywiad ac aciwtedd uwch o ran cleifion.</p> <p><b>20/12.3.2</b> Cafwyd trafodaeth. Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE at y model gofal brys ar yr un diwrnod yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC) a nodwyd ei fod yn rhan o'r model gofal llym a'i fod yn ymwneud â chyflyrau y gellid eu trin trwy ddiffiniadau penodol. Roedd adroddiadau safle wedi'u llunio a allai nodi gwersi a ddysgwyd. Teimlai Aelod Annibynol fod y papur yn canolbwyntio cryn dipyn ar faterion llym ac y gellid edrych i raddau helaethach ar economi iechyd. Rhannodd y Cadeirydd bryderon Cadeiryddion Cymru Gyfan ynghylch ffrydiau cyllid ac nad oedd dyrannu arian ar gyfer pwysau'r gaeaf yn hwyr yn y flwyddyn yn fuddiol. Nododd Aelod Annibynol gynnydd mewn achosion tordyletswydd yn cynnwys pobl ifanc o dan 18 oed yn economi iechyd y Gorllewin, a dywedodd Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrhau Ansawdd / Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau fod dadansoddiad dyddiol wedi'i gynnal a bod yr achosion tordyletswydd yn ymwneud â phobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn benaf, nid plant ieuengach.</p> <p><b>20/12.3.3 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi perfformiad gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Rhagfyr ar draws BIPBC ac ar gyfer pob economi iechyd, yn cynnwys diweddariad y gaeaf</li> <li>• nodi'r diweddariad ar raglen Adeiladu Gofal Gwell a gwaith parhaus o fewn cyfnod 4</li> </ul>	
<p><b>20/13 Adroddiad Cyllid Mis 7</b></p>	

<p><b>20/13.1 Penderfynwyd y dylid nodi'r</b> adroddiad.</p>	
<p><b>20/14 Adroddiad Cyllid Mis 8</b></p> <p><b>20/14.1</b> Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid gyflwyno'r papur ac amlygodd fod y sefyllfa wedi dirywio gan fod y Bwrdd lechyd wedi gorwario o £27.1m, £8.8m yn uwch na'r cynllun rheoli cyflawn a £3.8m dros y cynllun gwreiddiol. Roedd llythyr wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru er mwyn amlygu'r risgiau i'r rhagolwg ariannol. Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid adrodd bod ystod o reolyddion ariannol ychwanegol wedi'u rhoi ar waith er mwyn lleihau gwariant disgresiynol heb effeithio ar ofal cleifion, ac roedd craffu parhaus ar gynlluniau uwch adrannau. Tynnwyd sylw aelodau at y cyllid anghylchol ychwanegol a dderbyniwyd er mwyn mynd i'r afael â phwysau yn ystod y gaeaf, ac roedd swyddogion yn gweithio i greu cynllun er mwyn ei wario'n briodol.</p> <p><b>20/14.2</b> Cafwyd trafodaeth. Nododd Cadeirydd y SRG fod yr IQPR yn nodi "yr ystyrir bod modd gwireddu'r diffyg arfaethedig gwreiddiol os oes modd i'r Bwrdd lechyd drosi a chyflawni 50% i'r cynlluniau coch sy'n weddill, a chyflwyno'r holl gynlluniau gwyrdd a melyngoch ar eu gwerthoedd arfaethedig ochr yn ochr ag atal pwysau sy'n deillio o gostau". Gofynnodd beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf yn hyn o beth ac adroddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid fod y sefydliad ar hyn o bryd yn disgwyl gwireddu arbedion o £37m ac roedd hyn heb fod yn unol â'r cynllun. Nododd fod cynlluniau arbedion yn dal i gael eu rhoi ar waith ac y byddai'r pwysau'n parhau. Mewn ymateb i gwestiwn am arbedion ar gyfer 2020-21, cadarnhawyd bod hyn yn ffocws amlwg ar gyfer y Grŵp Adfer Ariannol (FRG) ynghyd â chynnwys y grwpiau gwella. Adroddodd y Cadeirydd hefyd fod y Cyfarwyddwr Adfer Ariannol wedi mynychu'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn gynharach y diwrnod hwnnw a rhoddodd ddiweddariad ar arbedion a sicrwydd ynghylch gallu'r sefydliad i wireddu'r sefyllfa £41m (neu well) ar ddiwedd y flwyddyn. Nododd fod mesurau pellach yn cael eu rhoi ar waith i reoli gwariant ond cydnabu'r her sydd ynghlwm wrth wireddu arbedion sylweddol gan barhau i yrru gwelliannau gwasanaeth a chanlyniadau perfformiad yn eu blaen. Crynhodd y byddai sgyrsiau'n parhau gyda'r Gweinidog yn ymwneud â sefyllfa ariannol y Bwrdd.</p> <p><b>20/14.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd</b> nodi'r adroddiad gan gyfeirio'n benodol at y diffyg rhagolygol o £35m a'r camau penodol sydd ar y gweill er mwyn cyflawni'r cynllun.</p>	
<p><b>20/15 Datblygu Strategaeth Ddigidol: y Darlun Cenedlaethol</b></p> <p><b>20/15.1</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol y papur a oedd yn crynhoi'r newidiadau a oedd wedi'u rhoi ar waith o ran y strategaeth ddigidol genedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru. Teimlai fod y sefyllfa'n fwyfwy clir a bod cyfleoedd i BIPBC ddylanwadu ar raglenni cenedlaethol a symbylu newidiadau cadarnhaol yng Ngogledd Cymru. Nodwyd bod cyfarfod buddiol wedi'i gynnal gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o ran sut y gallai'r sefydliadau weithio'n well gyda'i gilydd.</p> <p><b>20/15.2</b> Cafwyd trafodaeth. Teimlai Cadeirydd y Pwyllgor QSE y byddai blaenoriaethu'n hollbwysig a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol y datblygwyd rhestr o systemau buddsoddi digidol wedi'i blaenoriaethu ac y byddai angen ei hystyried yn ofalus er mwyn canfod yr atebion cywir ynghyd â'r canlyniadau gorau. Nododd aelodau hefyd fod yn rhaid mynd i'r afael â hyfforddiant a sgiliau staff ochr yn ochr ag atebion digidol, a chan ystyried cynhwysiant digidol gyda phartneriaid a'r boblogaeth ehangach o ran anghydraddoldeb iechyd. Gwnaeth y Cadeirydd groesawu'r diweddariad ac awgrymodd y</p>	

<p>dylai BIPBC ymdrechu i gryfhau o ran atebion digidol ar draws Cymru ac y byddai'r Bwrdd yn fwy na pharod i helpu ac i roi cymorth o ran y sgysiau hyn.</p> <p><b>20/15.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd</b> nodi'r adroddiad fel crynodeb o'r strategaeth ddigidol genedlaethol yng Nghymru.</p>	
<p><b>20/16 Asesu Strwythuredig ac Adroddiad Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru</b></p> <p><b>20/16.1</b> Gwnaeth Mr Andrew Doughton (WAO) gyflwyno'r eitem hon ar yr agenda. O ran yr asesiad strwythuredig, nododd fod yr adroddiad yn ymdrin â phum prif faes yn ymwneud â chyllid a pherfformiad; gweledigaeth strategol; gweddnwedd a thrawsnewid; trefniadau llywodraethu; a materion gweithlu'n ymwneud â recriwtio, cynhyrchiant a moderneiddio. Tynnodd sylw at y prif gasgliadau a amlinellir ym Maragraff 9 yr adroddiad, ac at y saith argymhelliad a amlinellir yn Arddangosyn 1 a chrynhodd fod y Bwrdd lechyd eto i fynd i'r afael â llawn â'r prif heriau a nodwyd yn yr asesiad strwythuredig blaenorol ond y byddai'n cefnogi ymagwedd yn y tymor hwy tuag at sicrhau'r canlyniadau cywir.</p> <p><i>[Ymunodd Mr A Thomas â'r cyfarfod]</i></p> <p><b>20/16.2 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn gwneud y canlynol :</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyn a chymeradwyo argymhellion Asesiad Strwythuredig 2019 WAO a'r camau a amlinellir yn yr Ymateb Rheoli.</li> <li>• Gofyn am ddiweddariad ar gynnydd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.</li> </ul> <p><b>20/16.3</b> Aeth Mr Doughton yn ei flaen i gyflwyno Adroddiad Archwilio Blynyddol 2019 a oedd yn rhoi crynodeb o raglen waith WAO yn cynnwys archwilio'r adroddiad atebolrwydd a datganiadau ariannol blynyddol. Nodwyd bod barn ddiamod ar fanwl-gywirdeb a pharatoadau priodol o ran datganiadau ariannol 2018-19 wedi'u rhoi ond bod barn archwilio amodol wedi'i rhoi ar gysondeb y trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd lechyd, ynghyd ag adroddiad sylweddol yn amlygu methiant y sefydliad i fodloni ei ddyletswyddau ariannol statudol. Cafodd rhaglen ehangach gwaith archwilio ei hamlinellu yn Arddangosyn 2. Yn olaf, nododd Mr Doughton fod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo gyda'r Tîm Gweithredol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.</p> <p><b>20/16.4</b> Cyfeiriodd y Cadeirydd at archwilio parhaus o ran trefniadau penodi cyfarwyddwyr dros dro a holodd pa bryd y byddai'r adroddiad ar gael gan ei fod yn debygol o fod yn fater sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau. Cadarnhaodd Mr Doughton nad oedd wedi gweld yr adroddiad drafft eto ond bod disgwyl i archwilio ddod i ben ym mis Chwefror.</p> <p><b>20/16.5</b> Diolchodd y Cadeirydd i Mr Doughton am yr adroddiadau a chroesawodd y gydberthynas gadarnhaol gyda chydweithwyr WAO ynghyd â'r craffu a'r cipolygon a roddant.</p> <p><b>20/16.6 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd</b> dderbyn a nodi Adroddiad Archwilio Blynyddol WAO 2019 yn ffurfiol</p>	LJ
<p><b>20/17 Safonau'r Gymraeg: Y Diweddaraaf am Sefyllfa BIPBC</b></p> <p><b>20/17.1</b> Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd y Cyhoedd gyflwyno'r papur yn rhoi diweddariad ar gynnydd o ran cyflwyno Safonau'r Gymraeg gan fod y Bwrdd lechyd wedi</p>	

<p>derbyn hysbysiad cydymffurfio terfynol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Amlinellodd y papur ystod o gamau cadarnhaol a gymerwyd a hefyd nifer o heriau a risgiau o ran cydymffurfiaeth. O ran Safon 37 a oedd yn ymwneud â sicrhau bod dogfennau ar gael yn ddwyieithog, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd y Cyhoedd fod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r gofyniad hwn yn well gan gynnwys cyfieithu templed newydd y Bwrdd ar gyfer adroddiadau, a chyfieithu papurau unigol ar gyfer cyflwynwyr Cymraeg eu hiaith. Tynnodd sylw aelodau at y materion capasiti sylweddol o ran y gallu i ddarparu'r holl bapurau'n ddwyieithog, ynghyd â'r heriau ychwanegol y byddai hyn yn ei greu o ran terfynau amser cyhoeddi. O ran Safon 63 yn ymwneud â chyrsgau addysg a gynigir yn ddwyieithog, disgrifiodd Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd y Cyhoedd y gwaith sy'n cael ei wneud gan Grŵp Rheoli Prosiect Safonau'r Gymraeg er mwyn ceisio symud ymlaen o ran cyrraedd y safon hon.</p> <p><b>20/17.2</b> Cafwyd trafodaeth. Cydnabu Aelod Annibynnol y gwelliannau a wnaed i'r wefan allanol. Aeth yn ei flaen i fynegi ei bryderon ynghylch cynnydd wrth gyrraedd Safon 37 a theimlai fod angen i sefydliad o faint BIPBC fynd i'r afael â hyn trwy greu capasiti ychwanegol a newid diwylliant. Croesawodd y diweddariad yn y papur a gyflwynwyd ond nid oedd yn teimlo ei fod yn cynnig eglurder o ran pa gamau a cherrig milltir pellach oedd yn cael eu nodi i gyflawni'r safon hon. Nododd Aelod Annibynnol arall y gallai'r Comisiynydd godi dirwy ar sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio. Cytunodd y Cadeirydd fod angen i'r sefydliad fod yn fwy gweladwy o ran gweithio tuag at y safon hon ac y byddai'n awyddus i weld yr holl eitemau sefydlog ar agendau'r Bwrdd yn cael eu darparu'n ddwyieithog, gan dderbyn y byddai angen asesiad er mwyn llwyr ddeall y capasiti gofynnol i gyflawni hyn. Cydnabu Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd y Cyhoedd y byddai Tîm y Gymraeg yn croesawu mwy o weladwyedd o ran y Gymraeg yng nghyfarfodydd y Bwrdd ond ailbwyseisiodd yr heriau sydd ynghlwm wrth fodloni terfynau amser cyhoeddi. Ymrwymodd i sicrhau bod asesiad priodol yn cael ei gynnal a'i gyflwyno gerbron y Bwrdd a chadarnhaodd fod perfformiad yn unol â'r safonau'n cael ei adrodd fel mater o drefn gerbron Pwyllgor SPPH.</p> <p><b>20/17.3</b> Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrhau Ansawdd / Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau at stori claf yn ddiweddar yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg a dderbyniwyd yn y Pwyllgor QSE a chytunwyd i'w rhannu gyda'r holl aelodau er gwybodaeth. Cyfeiriodd yr Aelod Cyswllt (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) at ddatblygu systemau digidol a bod angen i'r Gymraeg gael ei ystyried a'i ymgorffori ar y cyfle cyntaf posibl, nid fel eitem ategol. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd y Cyhoedd fod yr holl aelodau a phawb sy'n mynychu'n cael eu hannog gymaint â phosibl i gyfrannu at gyfarfodydd y Bwrdd yn Gymraeg, os ydynt yn medru'r iaith. Nodwyd hefyd bod dau aelod o'r Bwrdd wedi gwneud cais am gwrs Cymraeg preswyl yn Nant Gwrtheyrn.</p> <p><b>20/17.4 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd</b> nodi'r adroddiad a gwaith parhaus mewn perthynas â chyflwyno camau parhaus o ran Safonau'r Gymraeg i hybu'r Gymraeg.</p>	<p>TO</p> <p>DC</p>
<p><b>20/19 20/19 Achos Busnes Cyfalaf Canolfan Integredig Dementia ac lechyd Meddwl Oedolion Bryn Beryl</b></p> <p><b>20/19.1</b> Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yr achos busnes yn amlinellu'r sail resymegol dros ddatblygu Canolfan Integredig Dementia ac lechyd Meddwl Oedolion ar safle Bryn Beryl. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi cefnogi'r achos busnes.</p>	

<p><b>20/19.2</b> Gofynnwyd cwestiwn yn ymwneud â sut byddai'r cynigion yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd a phartneriaid, a chadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad, y câi cynllun ac ymgyrch cyfathrebu ei roi ar waith, unwaith y byddai wedi'i gymeradwyo.</p> <p><b>20/19.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd</b> gymeradwyo'r achos busnes cyfalaf ar gyfer Canolfan Integredig Dementia ac Iechyd Meddwl Oedolion Bryn Beryl.</p>	
<p><b>20/20 Archebion Sefydlog a Chynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau (SORD)</b></p> <p><b>20/20.1</b> Cyflwynodd Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yr adroddiad a gafodd ei graffu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw beth dadleuol o ran y diwygiadau ac nad oedd y Pwyllgor Archwilio wedi tynnu sylw at unrhyw bryderon. Tynnwyd sylw'r Bwrdd at yr angen i gadarnhau ac ymgorffori'r archebion sefydlog ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC) a Phwyllgor Gwasanaethau Ambiwylansys Brys (EASC) i bwyllgor y Bwrdd ei hun. Yn ogystal, nodwyd y byddai proses ar wahân yn dilyn er mwyn diweddarau Cynlluniau Cadw a Dirprwyo Pwerau gweithredol unigol yn BIPBC.</p> <p><b>20/20.2 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd wneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadarnhau newidiadau i'r Archebion Sefydlog a'r SoRD a gymeradwywyd eisoes gan y Pwyllgor Archwilio</li> <li>• Nodwch, ar ôl eu cadarnhau, y caiff SoRD ar lefel weithredol ar gyfer pob Gweithredwr, Ardal a phrif safle ysbyty eu diweddarau'n unol â'r newidiadau a wneir i uwch gynllun SoRD cyffredinol y Bwrdd Iechyd.</li> </ul>	
<p><b>20/21 Crynodeb o fusnes Preifat y Bwrdd i adrodd arno'n gyhoeddus</b></p> <p><b>20/21.1</b> Nodwyd gwall topograffigol y dylai'r papur nodi "cymeradwyo cofnodion blaenorol"</p> <p><b>20/21.2 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd</b> nodi'r adroddiad.</p>	
<p><b>20/22 Dogfennau wedi'u Llofnodi o dan Sêl - Mrs Liz Jones</b></p> <p><b>20/22.1 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd</b> nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.</p>	
<p><b>20/23 Cymru Gyfan a Fforymau Eraill</b></p> <p><b>20/23.1 Nodyn Briffio Cydbwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru 12.11.19</b></p> <p><b>20/23.1.1</b> Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid wybod i aelodau bod Cynllun Comisiynu Integredig WHSCC wedi'i ymgorffori i gynlluniau BIPBC ei hun, yn ôl yr angen.</p> <p><b>20/23.1.2</b> Cafodd y briff ei nodi.</p> <p><b>20/23.2 Crynodeb Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys</b></p> <p><b>20/23.2.1</b> Cafodd y crynodeb ei nodi</p> <p><b>20/23.3 Cydbwyllgor Canolbarth Cymru 19.11.19</b></p>	

<p><b>20/23.3.1</b> Awgrymodd y Cadeirydd fod llawer o fanylder yn y diweddariad a bod angen i BIPBC sicrhau ei fod yn dysgu oddi wrth Fyrddau lechyd eraill ac yn creu'r cysylltiadau cywir. Byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yn codi'r mater hwn gyda Mrs Sally Baxter, cynrychiolydd BIPBC.</p> <p><b>20/23.3.2</b> Cafodd y diweddariad ei nodi.</p> <p><b>20/23.4 Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau 2.12.19</b></p> <p><b>20/23.4.1</b> Cafodd yr adroddiad ei nodi.</p>	MW
<p><b>20/24 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</b></p> <p>Dydd Iau 26.3.20 ym 9.30am yn 'Preswylfa', Yr Wyddgrug.</p>	
<p><b>20/25 Cyfarfodydd Pwyllgor i'w cynnal yn gyhoeddus cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd</b></p> <p>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 28.1.20; Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth 13.2.20; Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 27.2.20; Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 10.3.20, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 17.3.20, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 24.3.20.</p>	
<p><b>20/26 Heb y Wasg a'r Cyhoedd</b></p> <p><b>Penderfynwyd bod</b> cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i ddiddordeb y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.</p>	